LLAIS Y GOEDWIG
The voice of community woodlands in Wales

# Nodyn Cynghori - Cydweithio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

Mae'r Nodyn Cynghori hwn wedi cael ei ysgrifennu i'ch helpu i ddeall yn well nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFGA) ac egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR). Mae'n awgrymu ffyrdd y gallwch eu hymgorffori yn eich cynllun rheoli, y gallwch ei ddefnyddio i ddarparu eich gweithgareddau grŵp, a phan rydych yn ymgeisio am gyllid. Mae'n tynnu ar brofiad grwpiau coetir cymunedol yng Nghymru a adnabuwyd yn yr adroddiad, ***Scoping the delivery of Welsh Government policy goals by Community Woodland Groups***, sydd ar gael gan Llais y Goedwig.

## Beth yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFGA)?

Pasiwyd y Ddeddf hon yn 2015 gyda'r nod o wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn awr ac ar gyfer y dyfodol. Bwriedir iddi arwain sefydliadau cyhoeddus i feddwl mwy am y tymor hir, edrych ar atal problemau a chael dull mwy cydgysylltiedig o weithio rhwng y llywodraeth, eu sefydliadau a chi. Mae dyletswydd ar gyrff y sector cyhoeddus i ddangos sut maent yn cyflawni nodau WFGA yn eu cynlluniau presennol a chynlluniau'r dyfodol.

Mae ein hymchwil gyda Grwpiau Coetir Cymunedol wedi dangos bod y rhan fwyaf o grwpiau eisoes yn alinio â nifer o nodau WFGA ac egwyddorion SMNR, yn aml, nid yw hyn yn fwriadol ond o ganlyniad i gynllunio da ac union natur Grwpiau Coetir Cymunedol fel sefydliadau dan arweiniad y gymuned. Mae'r tablau isod yn dangos ychydig o weithgareddau yr ydym wedi'u hadnabod drwy'r cyfweliadau gyda grwpiau coetir cymunedol a sut mae'r rhain yn cyd-fynd â nodau WFGA ac egwyddorion SMNR.

Gellir dod o hyd i arweiniad ar WFGA yn:
https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/02/150623-guide-to-the-fg-act-en.pdf

## Beth yw Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR)?

Amlinellodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a basiwyd yn 2016 naw egwyddor ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR). Mae SMNR yn ddull rheoli sy'n hyrwyddo gweithredu i adeiladu gwytnwch yn ein hadnoddau naturiol (yn ein hachos, coetiroedd) fel y cynhelir y buddion y maent yn eu darparu i fod o fudd i ni a chenedlaethau'r dyfodol. Mae angen i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFGA) a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) gydweithio oherwydd mae ein hadnoddau naturiol yn sail i'n llesiant diwylliannol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Gellir dod o hyd i arweiniad ar SMNR yn:
https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/sustainable-management-of-natural-resources-guide.pdf

## Beth mae'n ei olygu i mi?

Mae'r adroddiad gan LlyG wedi dangos fel Grŵp Coetir Cymunedol (CWG), p'un a ydych yn ymwybodol ai peidio, eich bod yn debygol o gyfrannu at gyflawni nodau WFGA ac os ydych yn dilyn arferion da wrth reoli coetir rydych hefyd yn debygol o gwrdd â nifer o egwyddorion SMNR. Gall bod yn fwy o ymwybodol o sut mae eich CWG yn gwireddu nodau WFGA a SMNR eich helpu i adnabod lle all gwelliannau fod yn ofynnol a rhoi fframwaith i chi ar gyfer adrodd eich gwaith i bobl tu hwnt i'ch grŵp ac ardal leol.



Gall ymwybyddiaeth o strwythur ac iaith WFGA a SMNR eich helpu i gyfathrebu â chyrff cyhoeddus, ar gyfer ceisiadau grant ac adeiladu perthnasoedd. Efallai eich bod yn chwilio am gyllid neu'r awydd i weithio mewn partneriaeth i'ch helpu i gynnal gweithgareddau arfaethedig neu gychwyn prosiectau newydd o fewn eich coetiroedd i gyflawni eich nodau. Yn y naill achos, bydd yn bwysig eich bod yn edrych ar yr hyn a wnewch ac yn mynegi hyn yn nhermau polisïau ac amcanion y llywodraeth a'ch darpar bartneriaid.

Rydym yn argymell y gellir gwneud hyn o fewn cynllun rheoli i alinio'r hyn yr ydych eisiau ei gyflawni â nodau WFGA a beth ydych yn ei wneud yn y coetir ag egwyddorion SMNR. Bydd eich cynllun rheoli yn helpu i'ch cadw chi ar ben ffordd, asesu pa mor dda ydych chi'n gwneud ac adrodd ar weithgareddau a chanlyniadau eich grŵp.

Mae'n annhebygol y bydd cyfatebiaeth syml rhwng eich amcanion a ffordd o weithio ag WFGA a SMNR. Dylech alinio'r hyn a wnewch gyda'r nodau ac egwyddorion sydd fwyaf arwyddocaol i'ch grŵp ac mae croeso i chi ychwanegu atynt, eu hymestyn a'u defnyddio i weddu i'ch anghenion. Cyn belled â bod gennych groesgyfeiriadau at WFGA a SMNR byddwch yn gallu cyflwyno'n gyflym yr hyn a wnewch i gynulleidfa allanol.

## Beth yw cynllun rheoli?

Adnodd yw cynllun rheoli (MP) i'ch helpu i gynllunio a darparu eich gweithgareddau. Mae Nodiadau Cynghori 1 - 4 Llais y Goedwig yn cynnwys arweiniad defnyddiol i'ch helpu i ddatblygu MP. Gyda chysylltiadau at WFGA a SMNR wedi'u cynnwys a ddisgrifir yma, bydd eich MP yn gyfredol â pholisi ac arferion gorau presennol. Dylai MP ddiffinio eich nodau, disgrifio eich strategaeth a chynlluniau gweithredu o ddydd i ddydd. Dylai ystyried y risgiau ynghlwm, rhaid iddo gael amserlen, a dylai ddisgrifio sut y byddwch yn monitro a gwerthuso'r hyn rydych wedi'i wneud.

Nid oes un templed penodol ar gyfer hyn, gan y dylid teilwra'r cynllun i'ch grŵp, neu hyd yn oed i brosiectau penodol yr ydych yn eu cynnal. Bydd y manylion yn y cynllun yn adlewyrchu maint eich grŵp neu brosiect. Ar gyfer prosiectau mawr, efallai y bydd angen rhannu'r cynllun yn adrannau llai yn seiliedig ar weithgareddau neu ganlyniadau.

Isod ceir enghraifft syml o beth ddylai cynllun rheoli ymdrin ag ef:

**Nod** – beth ydych chi eisiau ei gyflawni, e.e. creu llwybr newydd ar gyfer taith drwy'r coetir.

**Camau i'w cymryd** – cynllunio llwybr, clirio coed a llystyfiant, adeiladu llwybr. Ymgymryd ag asesiad o safle neu Arolwg Iechyd Coetir i adnabod beth sydd gennych ar y safle, gan gynnwys unrhyw rywogaethau gwarchodedig neu sydd mewn perygl.

**Cyfrannu at nodau llesiant cenedlaethol** – Cymru iachach (mwy o bobl yn cerdded mewn coetir), Cymru sy'n fwy cyfartal (llwybr i bob gallu), Cymru o gymunedau cydlynol (mae eich cymuned wedi dod ynghyd i gefnogi a gweithio ar y llwybrau newydd), Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (paneli gwybodaeth yn disgrifio hanes a diwylliant yr ardal, fersiynau Cymraeg).

**Cyfrannu at egwyddorion SMNR cenedlaethol** – Cydweithio ac ymgysylltu (gwneir gwaith â sefydliadau eraill), Cynnwys y cyhoedd (mewnbwn gan eich cymuned), Buddion lluosog (iechyd, addysg).

**Dull** – sut ydych chi'n mynd i wneud hyn (defnyddio contractwyr, gwirfoddolwyr, prynu nwyddau i mewn neu eu creu o adnoddau sydd gennych eisoes, sut mae'r llwybrau wedi'u mapio)? Pa mor hir y bydd yn ei gymryd?

**Asesu risg** – beth yw'r risgiau (diffyg cymorth, defnyddio offer, deunyddiau trwm, tywydd) a sut y byddant yn cael eu lliniaru?

**Monitro a gwerthuso** – pa ddata y gellir ei gasglu (nifer y gwirfoddolwyr, ymwelwyr)? Sut y byddwch yn gwybod a ydych wedi bod yn llwyddiannus (ffurflenni adborth gwirfoddolwyr/ymwelwyr, diwrnodau agored/gwerthusiadau cymunedol)?



## Datganiadau Ardal

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynhyrchu Datganiadau Ardal sy'n cyfrannu at weithredu WFGA a SMNR mewn cyd-destun lleol. Maent yn cyfeirio at hyn fel dull sy'n seiliedig ar le. Gall fod o fudd i chi a'ch partneriaid gyd-destunoli'r hyn a wnewch fel cyfraniad i'r Datganiad Ardal ar gyfer eich rhanbarth.

Byddai eich cynllun rheoli yn ffordd ddefnyddiol, bendant o gyflwyno'r hyn rydych yn ei wneud fel mewnbwn i'r Datganiad Ardal.

Mae ffocws Datganiad Ardal ar gydweithio i gyflawni canlyniadau gwell ar lefel leol. Mae saith datganiad ardal rhanbarthol ledled Cymru sy'n amlinellu'r heriau allweddol sy'n wynebu'r ardal benodol honno, beth allwn ei wneud i oresgyn yr heriau hyn, a sut allwn ni reoli'n well ein hadnoddau naturiol er budd cenedlaethau'r dyfodol.

Mae cymunedau yn y sefyllfa orau i siapio blaenoriaethau a chyfleoedd lleol a dod o hyd i ddatrysiadau ymarferol sy'n sicrhau'r buddion ehangaf posib, i'r perwyl hwnnw mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymgynghori'n eang ar ddatblygiad Datganiadau Ardal. Os nad ydych eisoes wedi ymwneud ag ymgynghoriad Cyfoeth Naturiol Cymru ar ddatblygiad Datganiadau Ardal, byddai'n werth i chi gysylltu â'ch grŵp Datganiad Ardal rhanbarthol (mae pob un ohonynt ar Facebook) a chyfrannu at gynlluniau lleol. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn: https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/?lang=en



## Adrodd ar ba mor dda ydych chi'n gwneud

Bydd angen ychydig o rifau a thystiolaeth arnoch i adrodd ar eich cyfraniad i nodau WFGA a chyflawni SMNR. Mae eich cynllun rheoli yn disgrifio eich gweithredoedd a gweithgareddau ac yn eich helpu i asesu pa mor dda ydych chi'n gwneud. I wneud hyn, mae angen i chi gadw cofnod o gyfranogwyr, gweithgareddau ac allbynnau/canlyniadau. Nid oes un adnodd adrodd penodol, felly gallwch ganolbwyntio ar y meysydd hynny y credwch sy'n bwysig i'ch grŵp. Os ydych mewn partneriaeth, neu'n derbyn grant, yna efallai bydd yr hyn rydych yn adrodd arno wedi cael ei ragnodi i chi.

Yn ddelfrydol, ar ddechrau prosiect, byddwch yn gwneud cofnod o'ch prosiect fel y mae bryd hynny. Gelwir hyn yn fesur gwaelodlin a gall gynnwys nifer yr ymwelwyr, gwirfoddolwyr neu aelodau, gallai gynnwys hyd llwybrau presennol, neu nifer y rhywogaethau coed. O hyn, byddwch yn diweddaru eich cofnodion yn rheolaidd fel y gallwch weld sut mae pethau wedi datblygu. Cofiwch fod gwaelodlin ar bwynt penodol mewn amser mewn perthynas â phrosiect penodol, ond mae gwella yn rhywbeth parhaus - os ydych yn cadw cofnodion da yn eich MP yna gallai eich gwaelodlin gynrychioli eich adroddiad blynyddol diwethaf - nid ymarfer untro cymhleth neu ddrudfawr ar gyfer pob prosiect.

Mae rhai cofnodion yn niferoedd: pobl, gweithgareddau, achosion o fandaliaeth, gwerthiannau. Gall eraill fod yn fwy goddrychol: cynnydd mewn bodlonrwydd, gwell cynefinoedd, cynnydd mewn bioamrywiaeth. Y peth pwysig yw bod yn gyson gyda'ch mesuriadau a sut ydych yn eu gwneud, h.y. os ydych yn defnyddio ffrâm metr sgwâr i gyfrif y rhywogaethau o bryfed neu flodau gwyllt yna cadwch at yr un mesur yn yr un lleoliad. Gallwch fod yn greadigol gyda'ch cofnodion, lluniau o weithgareddau, llwybrau newydd a strwythurau, mae'r cyfan yn cyfrif fel tystiolaeth ddefnyddiol hyd yn oes nad ydynt yn "ddata" pur. Yn ogystal, mae lluniau o'r awyr/dronau yn wych ar gyfer dangos beth ydych yn ei gyflawni yn eich ardaloedd ehangach.

Os nad oes gennych bresenoldeb ar y safle gydol yr amser, yna efallai mai ciplun yw'r unig ffordd o fesur niferoedd fel ymwelwyr. Os ydych yn ddigon ffodus o weithio mewn partneriaeth â sefydliad mwy fel Parc Cenedlaethol, yna efallai fod ganddynt ddulliau mecanyddol o gyfrif nifer yr ymwelwyr, efallai y byddant yn gallu cyflenwi peiriant cyfrif i chi ac efallai fod ganddynt ddata hanesyddol ar gael i chi ei ddefnyddio fel gwaelodlin.

Dewiswch beth i'w gofnodi yn ofalus. Bydd rhai gweithredoedd, h.y. gwella ansawdd dŵr, lleihau'r risg o lifogydd, yn mynnu dull mwy gwyddonol a gall fod yn gostus (oni bai eich bod yn gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol neu Barc Cenedlaethol). Mae'n well cadw eich paramedrau cofnodi i'r hyn y gall eich cymuned eu rheoli gyda'r sgiliau sydd ganddi.

Unwaith y byddwch wedi casglu cofnodion dros amser, gallwch asesu pa mor dda rydych yn gwneud ac a ydych yn cwrdd â disgwyliadau neu dargedau. Yn ogystal, bydd gennych nawr rywbeth y gallwch ddysgu oddi wrtho, h.y. Ai dyna'r gweithgaredd iawn ar gyfer y gynulleidfa honno? A wnaeth eich gwaith hyrwyddo digwyddiadau weithio? A oedd y gweithgarwch yn gyraeddadwy? Bydd mynd i'r afael â chwestiynau o'r fath yn eich helpu i wella rheolaeth a pherfformiad yn ogystal â chyflawni egwyddorion SMNR.

## Mae'n gwella drwy'r amser...

Mae eich fframwaith rheoli yn cysylltu eich cynlluniau a thargedau prosiect â chofnodion a gall ddangos cynnydd yn erbyn WFGA a SMNR. Nid dyna'r cyfan! Bydd buddion nad ydych wedi'u rhagweld: bydd cynyddu bioamrywiaeth a chynefinoedd yn arwain at goetir mwy atyniadol, bydd coetir mwy atyniadol yn denu mwy o ymwelwyr, bydd mwy o ymwelwyr yn mwynhau byd natur yn gwella iechyd a llesiant, bydd cysylltiadau gwell â'r amgylchedd naturiol a llesiant yn gwella eich cymuned a bydd pobl yn hapusach. Felly, dyma ni, cymunedau mwy cydlynol a gwydn; yn gymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. **Dyna yw llesiant!**





Mae'r Nodyn Cynghori hwn wedi cael ei baratoi ar gyfer Llais y Goedwig gan Roger Davies o Golygfa Gwydyr a Jenny Wong o Coetir Mynydd. Cymdeithas wirfoddol o grwpiau coetir cymunedol yw Llais y Goedwig a ffurfiwyd ym mis Tachwedd 2009 i ddarparu llais i goetiroedd cymunedol. Rydym eisiau rhannu profiadau, cefnogi ein gilydd a gwella coetiroedd lleol i fod o fudd i bobl Cymru. Mae'r adnodd hwn yn rhan o gyfres sy'n tyfu, yr ydym yn gobeithio a fydd yn ddefnyddiol i'n haelodau, ac eraill sydd â diddordeb mewn coetiroedd cymunedol yng Nghymru. Cysylltwch â ni: Llais y Goedwig, Uned 1, Parc Eco Dyfi, Machynlleth, Powys, SY20 8AX Ffôn: 01654 700061 www.llaisygoedwig.org.uk

Golygfa Gwydyr

Coetir Mynydd

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## Mapio gweithgareddau Grŵp Coetir Cymunedol yn erbyn nodau WFGA

| **Nodau llesiant cenedlaethau'r dyfodol** | **Nodweddion a gweithredoedd cyfraniadau Grŵp Coetir Cymunedol** |
|---|---|
| Cymru lewyrchus<br>*Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.* | Mae Grwpiau Coetir Cymunedol yn gweithredu'n lleol i fod o fudd i'r amgylchedd drwy ddefnydd effeithlon o adnoddau.<br>Mae Grwpiau Coetir Cymunedol yn cynhyrchu cyfoeth o adnoddau coetir drwy werthiannau uniongyrchol, cynnal gwasanaethau addysgol a darparu hyfforddiant ac o rentu'r safle.<br>Mae Grwpiau Coetir Cymunedol yn cyflogi pobl yn uniongyrchol neu drwy gontractio a gweithio mewn partneriaeth. |
| Cymru wydn<br>*Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid.* | Mae Grwpiau Coetir Cymunedol yn gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau iach drwy blannu rhywogaethau amrywiol sy'n lleihau ungnydau, cael gwared ar rywogaethau ymledol, rheoli dŵr wyneb, creu cynefinoedd a meithrin rhywogaethau prin, sydd mewn perygl.<br>Drwy arferion rheoli, mae Grwpiau Coetir Cymunedol yn darparu gweithgareddau a llwyfan yn y gymuned i ddatblygu cynlluniau ar gyfer y dyfodol. |
| Cymru fwy cyfartal<br>*Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol)* | Mae gan Grwpiau Coetir Cymunedol gyfleoedd ar gyfer aelodaeth/buddiolwyr sy'n agored i bawb ac sy'n ceisio lleihau arwahanrwydd ac amddifadedd cymdeithasol.<br>Mae gan Grwpiau Coetir Cymunedol weithgareddau sy'n hygyrch i bawb. |
| Cymru iachach<br>*Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol* | Mae Grwpiau Coetir Cymunedol yn ymgysylltu pobl â gweithgareddau sy'n hyrwyddo llesiant cymdeithasol, meddyliol a chorfforol.<br>Mae Grwpiau Coetir Cymunedol yn ysgogi dysgu i helpu pobl i benderfynu ar ddewisiadau ac ymddygiadau yn y dyfodol. |
| Cymru o gymunedau cydlynol<br>*Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da* | Mae Grwpiau Coetir Cymunedol yn weithredol o fewn y gymuned yn darparu cymorth ac ymgysylltiad gweithredol.<br>Mae Grwpiau Coetir Cymunedol yn gwella coetiroedd er budd y gymuned. |

| | |
|---|---|
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br><br>*Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.* | Mae Grwpiau Coetir Cymunedol yn ysgogi gweithredoedd, sydd gyda'i gilydd, yn adeiladu ar draddodiadau i greu diwylliant coetir Cymreig i genedlaethau'r dyfodol.<br>Mae Grwpiau Coetir Cymunedol yn darparu cyfle i gymunedau Cymraeg eu hiaith fynegi eu cysylltiad â thirwedd a byd natur lleol. |
| Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang<br><br>*Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang* | Mae Grwpiau Coetir Cymunedol yn ystyried eu gweithredoedd yng nghyd-destun unrhyw gyfraniadau a all gael goblygiadau byd-eang, e.e. gweithredoedd dros newid yn yr hinsawdd, masnach leol vs byd-eang, amddiffyn rhywogaethau sydd mewn perygl. |

## Mapio gweithredodd Grŵp Coetir Cymunedol yn erbyn egwyddorion SMNR

| **Egwyddorion SMNR** | **Beth sydd angen i Grŵp Coetir Cymunedol ei wneud i gydymffurfio â'r egwyddor hon** |
|---|---|
| Rheoli ymaddasol<br><br>*Rheoli'n ymaddasol, drwy gynllunio, monitro, adolygu a, lle bo'n briodol, newid camau gweithredu* | Casglu tystiolaeth ac adborth o weithgareddau monitro a chael proses adolygu i lywio gweithredu a newid yn y dyfodol. |
| Graddfa<br><br>*Ystyried y raddfa ofodol briodol ar gyfer gweithredu* | Naill ai:<br>- cael ardal fawr i'w rheoli<br>- gweithio ar draws sawl safle<br>- gweithio mewn partneriaeth â thirfeddianwyr eraill<br>- sicrhau ardaloedd ag effaith uchel (e.e. coetir amlwg mewn ardal drefol) |
| Cydweithio ac ymgysylltu<br><br>*Hyrwyddo a chymryd rhan mewn cydweithio a chydweithredu* | Gweithio gyda sefydliadau eraill (partneriaethau neu fel arall) i gyflawni eu nodau. |
| Cynnwys y cyhoedd<br><br>*Gwneud trefniadau priodol i'r cyhoedd gymryd rhan mewn penderfyniadau* | Galluogi mewnbwn ac arweiniad gan aelodau'r cyhoedd. Gall hyn fod yn ffurfiol neu anffurfiol: ymgynghori, adborth parhaus, cyfarfodydd cyffredinol blynyddol ac adolygiadau prosiect. |
| Tystiolaeth<br><br>*Ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu tystiolaeth mewn perthynas ag elfennau ansicr* | Anghenion y gymuned - dadansoddi yn seiliedig ar adborth (fel yr uchod).<br>Gweithredoedd rheoli - tystiolaeth dechnegol o ymchwil desg neu arolygon safle. |
| Buddion lluosog<br><br>*Ystyried buddion a gwerth hanfodol adnoddau naturiol ac ecosystemau* | Defnyddio safleoedd ar gyfer mwy nag un canlyniad cymdeithasol, economaidd neu gymdeithasol Dyma'r achos bob amser ar gyfer coetir sydd ar agor i'r |

| | |
|---|---|
| | cyhoedd (bioamrywiaeth a llesiant), ond mae gan nifer o grwpiau sawl gweithgaredd sy'n sicrhau llawer o fuddion. |
| Tymor hir<br><br>*Ystyried y canlyniadau tymor byr, canolig a hir i gamau gweithredu* | Monitro ac adolygu dros gyfnodau hwy o amser. Mae cynlluniau rheoli coetiroedd fel arfer yn cwmpasu 20 mlynedd a mwy, ac maent yn aml yn ofynnol ar gyfer grantiau, prydlesau a threfniadau rheoli. Fodd bynnag, gall trefniadau tymor byr ei gwneud hi'n anodd datblygu cynlluniau tymor hir. |
| Camau gweithredu ataliol<br><br>*Cymryd camau i atal difrod sylweddol i ecosystemau* | Cymryd camau rheoli sy'n lleihau risg - rhywogaethau ymledol, tân, croeshalogi, cadw dŵr, dymchweliad (coed, ffin, strwythur). Mae hyn yn mynnu cymorth cyllid sy'n anodd ei sicrhau. |
| Adeiladu gwytnwch<br><br>*Ystyried gwytnwch ecosystemau* | Mae gweithredoedd yn cynnwys - gwelliannau i fioamrywiaeth, datblygu cysylltiadau â thir cyfagos, gweithrediadau ar raddfa dirwedd, cyflwr/coedwriaeth, a hyblygrwydd. |